

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Partneriaethau

Dyddiad: 9 Mai 2024

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 16 MAI 2024 am 10.00 am yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRwy GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 PENODI IS-GADEIRYDD (Tudalennau 7 - 8)

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2024/25 (disgrifiad o'r rôl wedi'i atodi).

4 MATERION BRYNS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 9 - 14)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024 (copi ynghlwm).

10.10am – 10.15am

**6 ADOLYGU PENDERFYNIAD CABINET SY'N YMWNEUD Â CYMUNEDAU
DYSGU CYNALIADWY - RHAGLEN DREIGL** (Tudalennau 15 - 56)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) sy'n gofyn i'r Pwyllgor, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, adolygu'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 23 Ebrill 2024.

10.15am – 11.15am

EGWYL 11.15am - 11.30am

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 57 - 78)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

11.30am – 11.50am

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyddau a Grwpiau y Cyngor.

11.50am – 12pm

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Joan Butterfield
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Pauline Edwards (Is-Gadeirydd)

Jeanette Chamberlain-Jones
Kelly Clewett
Bobby Feeley
Brian Jones
Terry Mendies

Raj Metri
Arwel Roberts
David Williams
Elfed Williams

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Eitem Agenda rhif 6 yn unig)

Colette Owen

Neil Roberts

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchenog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Swydd Ddisgrifiad ar gyferaelod, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Craffu

(fel a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor)

Rôl: Aelod Pwyllgor Craffu /Cadeirydd

Cyflog: Band 3 (Cadeirydd yn unig)

Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i'r ôl y Cadeirydd (ac yn ei (h)absenoldeb yr Is-Gadeirydd)

1. PRIF GYFRIFOLDEBAU

- I'r Cyngor Llawn

2. PWRPAS Y RÔL

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Craffu, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwyt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth craffu.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:
 - Balchder
 - Hygrededd
 - Parch

- Undod
- Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
- Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo'n bosibl yn y Cyngor.
- Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a'r cyfansoddiad.
- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynnyddol i wella'n barhaus perfformiad yr aelod a'r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynnyddol ar wefan y Cyngor.

Eitem Agenda 5

PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd iau, 21 Mawrth 2024 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr- Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Bobby Feeley, Brian Jones, Terry Mendies, Raj Metri ac Arwel Roberts

HEFYD YN BRESENNOL

Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Ann Lloyd, Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd, Karen Evans, Cydlynnydd Craffu, Stephanie Jones (Gweinyddwr Zoom), Sharon Walker (Gweinyddwr Pwyllgorau).

Y Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

Alyson Constantine, Cyfarwyddwr Gofal Aciwt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen.

1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Kelly Clewett, Pauline Edwards, David Williams ac Elfed Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYS Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ddydd iau, 14 Rhagfyr 2023.

Materion yn Codi – Tudalen 8 – Gosod Lefelau Rhent Fforddiadwy – codwyd cwestiwn yngylch y tâl gwasanaeth ac a oedd yn cynnwys cynnal a chadw mannau chwarae. Yn ogystal â hyn, gofynnwyd a fyddai'r mannau chwarae'n cael eu dwyn yn ôl dan berchnogaeth gyhoeddus drwy Gyngor Sir Ddinbych. Gofynnwyd am ymateb ysgrifenedig ond nid yw hwn wedi'i dderbyn hyd yma. Gwnaeth y Cydlynnydd Craffu gadarnhau ei bod hi wedi anfon nodyn atgoffa ar gyfer ymateb.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir.

5 PROSIECT YSBTY CYMUNED GOGLEDD SIR DDINBYCH

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cyngropydd Elen Heaton, y Cyfarwyddwr Gofal Acíwt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r Pwyllgor.

Yn dilyn cyfarfod i drafod Ysbyty Brenhinol Alexandra, roedd cynnydd wedi'i wneud ond yr oedd yn y cyfnod cynnar. Gwnaeth yr Aelod Arweiniol gadarnhau fod datblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra yn brosiect Bwrdd Iechyd a oedd yn cael cefnogaeth gan Gyngor Sir Ddinbych pan fo angen. Pwysleisiwyd pwysigrwydd datblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra i liniaru'r pwysau ar Ysbyty Glan Clwyd ac integreiddio rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol fyddai'r flaenoriaeth.

Cadarnhaodd Alyson Constantine, Cyfarwyddwr Gofal Acíwt, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yr amserlenni a'r prosesau ar gyfer y dyfodol i'r Pwyllgor.

Roedd prosiect partneriaeth wedi'i sefydlu ac yr oedd cefnogaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i gadarnhau ym mis Rhagfyr 2023.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda TACP Architects i gyflwyno dyluniadau o safon uchel, costau ac amserlenni.

Byddai'r Gwerthusiad Dewis yn mynd i Lywodraethu Prifysgol Betsi Cadwaladr ym mis Mawrth ac yna'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LIC) ddiweddfod mis Mawrth. Byddai Llywodraeth Cymru yna'n cadarnhau dyraniadau cyllid a grant yn dilyn y cam hwn.

Roedd yr ysgogwyr ar gyfer y gwerthusiad dewis fel a ganlyn -

- Adnewyddu'r adeilad presennol ar gyfer cynaliadwyedd a sicrhau ei fod yn addas i'r diben;
- Defnyddio'r arwynebedd llawr yn y ffordd orau posibl i fanteisio ar y buddion cymunedol;
- Canolbwytio ar integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Gwella cydweithio rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector;
- Darparu Uned Mân Anafiadau yn cynnwys rhai gwelyau ar y campws;
- Darparu llety sy'n addas at y diben – nid popeth yn yr adeilad newydd;
- Mae'n rhaid i'r dewis fod yn fforddiadwy.

Mae'r adeilad clinigol newydd yn darparu gwasanaethau newydd ac estynedig -

- Gwelyau cymunedol – model newydd o ofal cam i fyny a cham i lawr;
- Uned anafiadau difrifol i'r gymuned a chlinigau Nyrsys Ardal;
- Gwasanaethau radioleg estynedig i gynnwys uwchsain a gwasanaeth y tu allan i oriau;

- Canolbwyt tridydd sector i gynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth a hybu lles;
- Llety estynedig ar gyfer timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar y safle;
- Caffi cymunedol ar gyfer ymwelwyr a staff;
- Gwasanaethau deintyddol cymunedol i'w darparu'n lleol mewn amgylchedd sy'n addas at y diben.

Adnewyddu'r adeilad presennol a defnyddio'r safle ehangach -

- Darparu amgylchedd sy'n addas at y diben ar gyfer -
 - Timau amlasantae
 - Grwpiau'r tridydd sector
 - Gwasanaethau Plant
 - Gwasanaethau Therapi, a
 - Gwasanaethau Iechyd Rhywiol.
- byddai amrywiaeth o dimau cefnogi wedi'u lleoli ar y safle;
- cadw dau adeilad Glan Traeth sy'n cynnal timau iechyd meddwl pobl hŷn ac amrywiaeth o wasanaethau cleifion allanol
- maes parcio estynedig oddi ar y safle.

Roedd Dewisiadau Cwmpas Adolygu Ysbyty Brenhinol Alexandra fel a ganlyn -

- **Dewis 1 - Gwneud dim**
- **Dewis 2 - Gwaith adfer ar yr Ysbyty Brenhinol Alexandra presennol.** Dim newid i wasanaethau.
- **Dewisiadau 3, 4 a 5 - Cwmpas Canolradd - Dewisiadau Newydd**
 - Dewis 3 - Unllawr, ôl troed achos busnes gwreiddiol a chynllun y llawr gwaelod. Darparu uned mân anafiadau, gwasanaethau deintyddol cymunedol, gwasanaethau radioleg estynedig, gwasanaethau iechyd rhywiol ehangach a chanolbwyt y tridydd sector. Adnewyddu'r adeilad presennol.
 - Dewis 4 - Unllawr, ôl troed achos busnes gwreiddiol a chynllun newydd. Darparu uned mân anafiadau, gwasanaethau deintyddol cymunedol, gwasanaethau radioleg estynedig, gwelyau cymunedol a chanolbwyt y tridydd sector. Adnewyddu'r adeilad presennol.
 - Dewis 5 - deulawr, yr un arwynebedd llawr â dewisiadau 3 a 4 a chynllun newydd. Darparu uned mân anafiadau, gwasanaethau deintyddol cymunedol, gwasanaethau radioleg estynedig, gwelyau cymunedol a chanolbwyt y tridydd sector. Adnewyddu'r adeilad presennol.
- **Dewis 6 - Uchafswm Cwmpas yr Achos Busnes Llawn**

Byddai'r amserlenni'n dibynnu ar ganlyniad yr ymgysylltu â LIC ynghylch y dewisiadau sydd ar gael.

Gwnaeth aelodau ddiolch i Alyson am y cyflwyniad.

Yn ystod y trafodaethau, codwyd y pwyntiau canlynol –

- Mynegodd yr aelodau eu rhwystredigaeth gan fod y cynllun gwreiddiol ar gyfer Ysbyty Brenhinol Alexandra wedi'i gyflwyno 13 mlynedd yn ôl. Roedd Prifysgol Betsi Cadwaladr, fel yr aelodau, yn rhwystredig. Eglurwyd bod angen cynnig y model a'r cyfleusterau mwyaf priodol yn y ffordd fforddiadwy orau. Dylai'r broses fod yn un syml eleni a bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn fuan. Cadarnhawyd na fyddai'r achos busnes a gyflwynwyd flynyddoedd yn ôl yn fforddiadwy ar hyn o bryd. Roedd y dewisiadau a gyflwynwyd yn fwy fforddiadwy ar gyfer cyfleuster addas at y diben.
- Codwyd y mater o drosglwyddo cleifion i ardaloedd eraill ar gyfer gwasanaethau arbenigol. Cadarnhawyd y byddai cleifion yn dal i gael eu trosglwyddo i ardaloedd eraill ar gyfer y triniaethau angenrheidiol gorau ac na fyddai'r broses honno'n newid.
- Roedd cyfranogiad yr aelodau yn bwysig ac yr oedd Arweinydd ac Aelod Arweiniol lechyd a Gofal Cymdeithasol yn ymwneud â thrafodaethau a chynlluniau ar gyfer Ysbyty Brenhinol Alexandra. Cadarnhawyd y byddai gwybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r aelodau i gyd er mwyn sicrhau parhad o ran cyfathrebu.

Ar y pwynt hwn, cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts fod llythyr yn cael ei anfon at Vaughan Gething, Gweinidog lechyd Llywodraeth Cymru, a Phennaeth y Gwasanaethau lechyd yn gofyn am ragor o arian i Ogledd Cymru i ganiatáu i'r ysbyty hwn gael ei adeiladu cyn gynted â phosibl.

Cafodd ei eilio gan y Cynghorydd Bobby Feeley.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn nodi'r cyflwyniad diweddar ac yn cytuno i anfon llythyr gan y Pwyllgor at Vaughan Gething, Gweinidog lechyd a Phennaeth y Gwasanaethau lechyd yn gofyn am fwy o arian i Ogledd Cymru i ganiatáu Ysbyty Brenhinol Alexandra gael ei adeiladu cyn gynted â phosibl.

6 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu yr adroddiad a'r atodiadau (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion perthnasol.

Cafodd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ei drefnu ar gyfer 16 Mai 2024. Nid oedd unrhyw eitemau wedi'u rhestru ar gyfer y cyfarfod nesaf ar hyn o bryd. Derbyniwyd tair ffurflen cynnig ond bydden nhw'n cael eu trafod yng Ngrŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu o ran pa Bwyllgor Craffu y bydden nhw'n cael eu cyfeirio ato.

Atodiad 3 oedd Rhaglen Waith y Cabinet er gwybodaeth i'r Aelodau.

Roedd Atodiad 4 yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn ag argymhellion o'r cyfarfod blaenorol.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn cadarnhau'r rhaglen waith fel y'i hamlinellir yn Atodiad 1.

7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Ni chafwyd adborth.

DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 11.37 A.M.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod	16 Mai 2024
Pennaeth Gwasanaeth	Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl
Awdur yr Adroddiad	Rhian Evans - Cydlynnydd Craffu
Teitl	Adolygu Penderfyniad y Cabinet yn ymwneud â Cymunedau Dysgu Cynaliadwy- Rhaglen Dreigl

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- Adolygiad o dan drefn 'galw i mewn' Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet, ar 23^{ain} Ebrill 2024, ynghylch â 'Cymunedau Dysgu Cynaliadwy- Rhaglen Dreigl'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- Cyflwynwyd rhybudd o 'alw i mewn' gan 5 cyngorydd nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhybudd (ynghlwm yn Atodiad A) yn galw am adolygiad gan un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 23^{ain} Ebrill 2024, ynglŷn â 'Cymunedau Dysgu Cynaliadwy- Rhaglen Dreigl'.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor:

- wedi ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'i atodiadau, ynghyd â'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth, yn penderfynu os dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ymwneud â'r 'Cymunedau Dysgu Cynaliadwy- Rhaglen Dreigl', a wnaed ar 23^{ain} Ebrill 2024, yn ôl i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth bellach; ac

- 3.2 os yn gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol, yn nodi'n eglur y rhesymau pam y mae'n gofyn am adolygiad ac yn llunio argymhelliaid(ion) yr hoffai i'r Cabinet eu hystyried

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 23^{ain} Ebrill 2024, bu i'r Cabinet ystyried adroddiad ar y 'Cymunedau Dysgu Cynaliadwy- Rhaglen Dreigl' (mae copi o'r adroddiad ynghlwm yn Atodiad B).

4.2 Ar ddiwedd y drafodaeth penderfynodd y Cabinet ei fod yn:

"(a) cymeradwyo bod y Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, (Atodiad 1 yr adroddiad), yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried, a

(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau."

4.3 Mae trefn galw i mewn y Cyngor yn diffinio proses i Graffu ddefnyddio ei bwerau statudol i adolygu neu graffu penderfyniadau gweithredol, ac i ofyn i'r sawl a gymerodd y penderfyniad i ailystyried y penderfyniad a wnaed, cyn ei weithredu.

4.4 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar 25^{ain} Ebrill 2024. Mae'r drefn 'galw i mewn' yn caniatáu i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet i gael 5 diwrnod i gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn'. Bu i'r Cynghorydd Mark Young gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn' yn electronig ar 2^{il} Mai 2024. Cefnogwyd y cais hwn o fewn y terfyn amser a ganiateir (trwy negeseuon e-bost unigol) gan bedwar cynghorydd arall nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet, sef y Cynghorwyr Merfyn Parry, Pauline Edwards, Geraint Lloyd-Williams ac Elfed Williams..

4.5 Mae'r rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn i graffu arno wedi'i nodi ar y ffurflen 'Rhybudd Galw i Mewn', gweler Atodiad A ynghlwm.

4.6 Mae trefn 'galw i mewn' y Cyngor yn nodi y dylid cynnal cyfarfod arbennig o bwylgor craffu o fewn 5 diwrnod o dderbyn y Rhybudd o Alw Penderfyniadau i Mewn oni bai bod gan bwylgor craffu gyfarfod wedi ei drefnu o fewn y cyfnod

hwnnw. Mae'r drefn hefyd yn nodi y gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu yn cytuno i estyniad. Gan fod yr agenda a'r adroddiadau ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 9^{fed} Mai eisoes wedi'u cyhoeddi cyn y derbyniwyd y cais i alw y penderfyniad i fewn, a chan nad oedd unrhyw gyfarfod arall o un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor wedi'u hamserlennu o fewn y 5 diwrnod gwaith rhagnodedig, cytunwyd ar estyniad i'r amserlen rhwng y sawl a wnaeth y penderfyniad a Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau er mwyn caniatau'r drafodaeth ar y penderfyniad a alwyd i mewn i gael ei gynnal yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau.

- 4.7 O ran gwybodaeth cefndirol i'r eitem hon mae modd [gwylia'r](#) drafodaeth gafwyd yng nghyfarfod y Cabinet ar 23^{ain} Ebrill 2024 ar wefan y Cyngor.
- 4.8 Yn dilyn ystyried penderfyniad y Cabinet ar sail y rhesymau a nodwyd ar gyfer galw'r penderfyniad i mewn i graffu arno, ynghyd â'r holl sylwadau a wnaed yn ystod y cyfarfod, bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau benderfynu a ddylid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet a'i peidio. Os yw o'r farn bod y penderfyniad yn haeddu cael ei gyfeirio'n ôl at y Cabinet mae angen i'r Pwyllgor ddatgan ei resymau dros ei gyfeirio'n ôl, ynghyd â gwybodaeth eglur am yr hyn y mae am i'r Cabinet ei ystyried. Os y cyfeirir y penderfyniad yn ôl at y Cabinet, bydd yn ystyried yr atgyfeiriad a'r rhesymau a gyflwynwyd i gefnogi'r atgyfeiriad yn y cyfarfod nesaf, sydd ar 21^{ain} Mai 2024. Yn y cyfarfod hwnnw bydd disgwyl i'r Cabinet ddangos bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i argymhellion y Pwyllgor Craffu.
- 4.9 Bydd gan y Cabinet y dewis i newid neu i gadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol.
- 4.10 Os yw'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau o'r farn na ddylid cyfeirio y penderfyniad yn ôl i'r Cabinet, yna gellir gweithredu'r penderfyniad gwreiddiol yn syth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Gweler Adran 5 adroddiad y Cabinet dyddiedig 23^{ain} Ebrill 2024 (Atodiad B ynghlwm).

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gweler Adran 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 23^{ain} Ebrill 2024 (Atodiad B ynghlwm).

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gweler Adran 7 ac Atodiad 3 i adroddiad y Cabinet dyddiedig 23^{ain} Ebrill 2024 (Atodiad B ynghlwm).

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi o dan ddarpariaethau ac amserlenni Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer 'galw i mewn' penderfyniad Cabinet.

8.2 Mae manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad i'w gweld yn Adran 8 o adroddiad y Cabinet dyddiedig 23^{ain} Ebrill 2024 (Atodiad B ynghlwm).

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Gweler Adran 9 adroddiad y Cabinet dyddiedig 23^{ain} Ebrill 2024 (Atodiad B ynghlwm).

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gweler Adran 10 adroddiad y Cabinet dyddiedig 23^{ain} Ebrill 2024 (Atodiad B ynghlwm).

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae pwerau Craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u nodi yn:

- Adran 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac
- Adrannau 7.2.1 ac Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



ANNEX A

NOTICE OF CALL IN OF DECISION

To: Head of Legal and Democratic Services

We, the undersigned, wish to call in the following decision (*see note 1*).

Decision taken by (*see note 2*): Cabinet

Date decision was taken: 23 April 2024

Report Title: Sustainable Communities for Learning – Rolling Programme – item 6

Decision (*see note 3*):
Approves the submission of the draft strategic outline programme for the Sustainable Communities for Learning – Rolling Programme to Welsh Government for their consideration – and confirms that its read , understood and taken into account the wellbeing assessment as part of its consideration

Reason for Call In: The cabinet decision to proceed with the submission of their business case for the new school, means that we would be losing the playing field/sports pitch in this location. Welsh Government quite rightly wish to protect these community sport/open spaces, and have clear legislation and processes. We believe that this process hasn't been adhered to. Please see the below which clarifies the correct process;

Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2010

The Playing Fields (Community Involvement in Disposal Decisions) (Wales) Measure 2010 (<https://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/6/contents>) ('the Measure') makes provision in relation to community involvement in decisions by local authorities in Wales about whether to dispose of playing fields. It confers a power on the Welsh Ministers to make regulations that would allow the involvement of communities in decisions by local authorities about the way in which they dispose of land that consists of or forms part of a playing field. A playing field is defined as an open space that has been marked or set aside for sport or similar recreational activity, at any time. Please see below up to date guidance

To conclude; We believe proposing building on the playing field/open space activates the desire of the local authority (DCC) to dispose of this land . This ensures that the relevant persons including the local community , local sports clubs and groups, and National Governing Bodies such as (Sport Wales) , The National Playing Fields Association , Play Wales and Open Spaces Society have had an opportunity to put forward their views regarding the proposed disposal. These representations along with other relevant matters will assist the local authority to decide whether or not to proceed with the proposed disposal.

A impact assessment providing details of the proposed disposal which must be available for inspection and sent to specified consultees and must include information about the effect of the proposal would have on the following strategies, plans and assessments for the following areas a) local development plan, b) play sufficiency assessment, c) community strategy, d) health , social care and well being strategy for the area . This assessment should consider how the proposed disposal would impact the above areas.

Risks are missing from the report;

In the report Item 10, Officers talk about risks and ask the question is there anything we can do to reduce them . 10.1 , they actually say the main risk will be around finance affordability If the main risk is affordability , I want to raise the following ; 1. Substantial costs need to be calculated, for site B (the field next to the football club that needs to be upgraded for athletics & rugby because of loosing site A due to the proposed new school)The upgrade of this field needs to be for a equal or betterment provision .The cost and also who is responsible for the costs needs to be made clear to Cabinet before any decision is made as the figure could be approximately £1 million or more? The point is that no decision should be made without the full costings and facts being understood and shown clearly

We (*see note 4*) request that according to the Council's approved 'call-in' procedure rules (*see note 5*) a meeting of the most appropriate Overview and Scrutiny Committee be held within 5 working days (*see note 6*) of the date of your receipt of this notice.

1. Mark Young (print) e-mail 02/05/2024 (signature)
2. Merfyn Parry (print) e-mail 02/05/2024 (signature)
3. Pauline Edwards (print) e-mail 02/05/2024 (signature)
4. Geraint Lloyd Williams (print) e-mail 02/05/2024 (signature)
5. Elfed Williams (print) e-mail 02/05/2024 (signature)

Dated: 02/05/2024

Guidance Notes

1. Five working days are allowed for a decision to be called-in following its publication on the Council's web-site and notification to Members of the Council. Urgent decisions may proceed despite a call-in if the decision-maker has the agreement of:
 - (i) the chair of the relevant scrutiny committee, or
 - (ii) if there is no such person or that person is unable to act, the Chair of the Council, or
 - (iii) if there is no chair of the relevant scrutiny committee or Chair of the Council, the Vice Chair of the Council.
2. Please state the name of the decision maker e.g. Cabinet or the Lead Member for.....
3. If the decision contains more than one part, please state which are to be called-in, e.g. parts (a), (b), and (d) of the Resolution.
4. Signatories must be non-executive members. Councillors with a prejudicial interest in the decision may not be a signatory to the Notice of Call-in.
5. The Denbighshire Call-in Procedure Rules appear in the Council's Constitution *Part 4.5 – Scrutiny Procedure Rules*.
6. Timescales may be extended in exceptional circumstances with the agreement of the decision-maker and the chair of the relevant scrutiny committee.

For Office use only

Received by: Rhian Evans _____ Date: 02/05/2024 _____

Date decision was published: 25/04/2024 _____

Notification sent to Leader and the Decision taker (date): 02/05/2024 _____

Notification sent to Chief Executive (date): 02/05/2024 _____

Relevant Scrutiny Committee: Partnerships Scrutiny Committee _____

Date: 16/05/2024 Time: 10am Venue: Hybrid County Hall & via Video Conference

ATODIAD B

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	23 Ebrill 2024
Aelod / Swyddog Arweiniol Y Cyngorydd Gill German - Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd	
Pennaeth Gwasanaeth	Geraint Davies - Pennaeth Addysg
Awdur yr Adroddiad	James Curran - Prif Reolwr - Cymorth i Ysgolion
Teitl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - Rhaglen Dreigl	

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei ymagwedd ar sut y mae'n bwriadu darparu ei Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (a arferai gael ei alw'n Ysgolion yr 21ain Ganrif). Mae'r adroddiad yn egluro'r broses newydd ac yn edrych am gytundeb ar sut i amlinellu ein bwriad i gyflwyno ein buddsoddiad arfaethedig i ysgolion fesul cam dros y 9 mlynedd nesaf.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen gwneud penderfyniad ar gyflwyno ein Rhaglen Amlinellol Strategol am fuddsoddiad o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Rhaglen Amlinellol Strategol drafft ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sydd i'w gweld yn Atodiad 1, yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried.

3.2. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Ar gyfer y cam nesaf o fuddsoddiad yn ystâd yr ysgol mae Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o fandiau 5 mlynedd o fuddsoddiad (Band A a Band B o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif) er mwyn cael ymagwedd fwy hyblyg dros gyfnod hirach o 9 mlynedd, gyda'r 9 mlynedd wedi'i rannu'n 3 bloc o 3 blynedd yr un. Mae cais wedi cael ei wneud i'r holl awdurdodau lleol i ddiweddu eu gweledigaeth i Lywodraeth Cymru trwy'r Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer buddsoddiad erbyn Mawrth 2024. Ar gyfer y Rhaglen Amlinellol Strategol diwygiedig gofynnwyd i awdurdodau lleol adnabod prosiectau sydd yn eu hanfod yn barod am achosion busnes i gael eu cyflwyno yn y tair blynedd gyntaf, i brosiectau sy'n cael eu datblygu ac yn mynd trwy ymgynghori statudol gael eu cyflwyno yn yr ail gam o dair blynedd a'r prosiectau sydd ar y gweill i gael eu cyflwyno ar gyfer y tair blynedd/cyfnod olaf. Bydd y rhagleni hyn yn cael eu hadolygu bob tair blynedd.
- 4.2. Mae'r gwaith o ddarparu'r 4 prosiect Band B sydd wedi'u hymrwymo'n ffurfiol (Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych; Ysgol Pendref, Dinbych, Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant, Llangollen ac Ysgol Uwchradd Dinbych) wedi cael eu heffeithio gan sawl oedi. Mae hyn ar y cyfan yn golygu na fydd y prosiectau hyn yn cael eu darparu o fewn amserlen wreiddiol Band B. Felly, mae'n cael ei argymhell eu bod nhw'n cael eu hymgorffori yn y Rhaglen Amlinellol Strategol newydd.
- 4.3. O ystyried y pwysau ariannol presennol sy'n wynebu'r Cyngor rydym angen ystyried beth sy'n fforddiadwy dros ba gyfnod o amser, o ystyried y bydd cyfraniad cyfalaf y Cyngor i unrhyw brosiect yn cael ei ariannu o fenthyca darbodus, sy'n ychwanegu pwysau'r gyllideb flynyddol ar ein cyfrif refeniw.
- 4.4. Argymhellir ein bod yn cadw at ein hymrwymiad i ddatblygu'r holl 4 prosiect Band B, ond bod yr amserlenni datblygu yn cael eu hailbroffilio i ledaenu'r pwysau refeniw dros gyfnod hirach.
- 4.5. Mae posiblwydd hefyd i gynnwys prosiect ychwanegol o fewn y Rhaglen. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal ynghylch estyniad bychan yn Ysgol y Castell

yn Rhuddlan a oedd yn cael ei ariannu'n wreiddiol o gyllid Adran 106 gan ddatblygiad tai lleol yn Rhuddlan. Mae costau'r prosiect wedi cynyddu a byddai'r opsiwn o'i gynnwys yn y Rhaglen yn galluogi'r prosiect i fynd yn ei flaen. Gyda'r gyfradd ymyrraeth o 65%/35% byddai'r £384,000 o gyllid Adran 106 yn gallu atynnu £713,000 ychwanegol o Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllideb posib o £1.1m. Nid oes gofyniad benthyca o'r prosiect hwn gan y byddai cyfraniad y Cyngor yn dod yn llwyr o gyfraniadau datblygwr A106 sydd (i) wedi'i derbyn yn barod gan y datblygwr ac (ii) angen ei wario erbyn 2029 neu mae risg y bydd yr arian yn cael ei ddychwelyd i'r datblygwr. Argymhellir fod Ysgol y Castell yn cael ei ychwanegu i'r Rhaglen i ymuno â'r ymrwymiad presennol i'r 4 o gyn brosiectau Band B.

- 4.6. Yn ogystal, a thu hwnt i'r prosiectau hyn a nodwyd, mae yna dal angen am fuddsoddiad pellach yn ystâd yr ysgol yn ehangach. Mae'r Rhaglen Amlinellol Strategol (gweler Atodiad 1) yn disgrifio lle sydd angen y buddsoddiad hwn o bosib o 2030 ymlaen. Yn y sector cynradd mae yna dal angen i gwrdd â meysydd lle mae yna ddiffyg darpariaeth ar hyn o bryd, gan ymateb i newidiadau demograffeg yn arbennig yng Ngogledd y sir a sicrhau fod modd cwrdd â'r galw am addysg Cyfrwng Cymraeg. Yn y sector uwchradd mae yna dal angen am fuddsoddiad yn y safleoedd hynny sydd heb elwa o fuddsoddiad ar raddfa fawr yn bennaf Ysgol Uwchradd Prestatyn, Ysgol y Santes Ffraid, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Dinas Bran. Awgrymwyd y dylid gwneud buddsoddiad wedi'i dargedu i gael gwared ar neu adnewyddu'r agweddau tlotach o'r ystâd ysgolion uwchradd fel rhan o'r cam hwn o'r Rhaglen. Mae angen gwneud gwaith pellach i adnabod y gwaith posib sydd angen ei wneud ar adeiladau'r ysgol er mwyn gallu rhoi cefnogaeth i ddisgyblion lle bydd angen darpariaeth arall y tu hwnt i ddarpariaeth prif ffrwd.
- 4.7. Mae'r ardaloedd hyn ar hyn o bryd yn ystyriaethau lefel uwch ac mae angen gwneud gwaith pellach cyn y cyflwyniad nesaf o'r Rhaglen Amlinellol Strategol yng ngwanwyn 2027 i adnabod lle y gellir gwneud y buddsoddiad yn ystod cyfnod 2030/2033. Mae'n bwysig nodi fod y rhan ddiwethaf o'r rhaglen yn cael ei gweld fel nodyn posib ar gyfer uchelgeisiau a ddim mor glir ag ymrwymiadau. Gallai'r uchelgais sydd wedi cael ei ddangos fynd yn llawer mwy neu'n lawer llai yn dibynnu ar ein sefyllfa ariannol ar y pryd.

4.8. Mae'r ymagwedd wedi'i amlinellu yn cynnal uchelgais y Cyngor i fuddsoddi'n ystâd ein hysgolion yn unol â llw'r cynllun corfforaethol i ddarparu adeiladau a chyfleusterau o safon sy'n cefnogi dysgu ond trwy ddull sy'n helpu fforddiadwyedd. Mae'r ymagwedd i wahanu'r prosiectau hyn sydd wedi profi oedi'n barod yn ystod cyfnod Band B, yn gweld oedi o ran dechrau ar y gwaith adeiladu ar y safleoedd. Yn bwysicach bydd yr ymagwedd hefyd yn lledaenu'r pwysau refeniw dros gyfnod hirach yn ystod amser heriol i gyllideb y Cyngor er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu ein huchelgais cyffredinol wrth leihau'r pwysau ariannol ehangach sy'n codi o'r buddsoddiad hwn. Bydd yn cyfyngu ar bwysau refeniw ar wasanaethau rheng flaen fel ysgolion dros y blynnyddoedd i ddod. Mae ychwanegu'r prosiect yn Rhuddlan sy'n cael ei ariannu o swm cymudol, a'r cynigion ar gyfer prosiectau sylweddol newydd y tu hwnt i 2030 yn arddangos ein huchelgais amlwg i adeiladau ar fuddsoddiad blaenorol yn ein ystâd ysgolion.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1. Sir Ddinbych sy'n ffynnu - wrth i'r rhaglen ddatblygu gwelwyd buddsoddiad sylweddol yn y Sir yn ystod y camau adeiladu o'r prosiectau a fyddai'n dod a budd economaidd i Sir Ddinbych trwy wariant lleol. Bydd y rhaglen angen dangos buddion cymunedol.
- 5.2. Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu - bydd datblygu'r rhaglen yn sicrhau ein bod yn darparu adeiladau a chyfleusterau o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.
- 5.3. Sir Ddinbych mwy gwyrdd - Bydd y rhaglen arfaethedig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at nod y Cyngor i fod yn Ddi-garbon Net erbyn 2030. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd gofyn i'r holl brosiectau adeiladau newydd, o 1 Ionawr 2022, ddangos eu bod yn bodloni targedau Di-garbon Net. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y byddant yn ariannu hyn yn llawn yn unol â'r meinchnodau maent wedi'u nodi.
- 5.4. Bydd y rhaglen arfaethedig yn chwarae ei rhan i gyflawni miliwn o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, drwy ddarparu'r Strategaeth Iaith Gymraeg

gyda phartneriaid a chymunedau. Bydd datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod y rhaglen yn cefnogi plant a theuluoedd yn ystod eu blynnyddoedd cynnar i ddatblygu hyder o ran defnyddio'r Gymraeg.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Ar hyn o bryd mae prosiectau o Fand B, yn ogystal â phrosiect Ysgol y Castell yn dod i gost arfaethedig o £67.7 (gweler Atodiad 2). Yn seiliedig ar gyfraddau ymyrraeth bresennol byddai'r gyfran gan Sir Ddinbych yn £20.6m gyda chais i Lywodraeth Cymru ariannu £47.1m. Byddai hyn yn dod i bwysau refeniw cyffredinol ar gyfer benthyca o £1.3m y flwyddyn. Byddai cyfraniad Llywodraeth Cymru yn cynnwys cost ychwanegol o £5.5m i gwrdd â'r anghenion di-garbon net.
- 6.2. Mae'r costau wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer Blynnyddoedd 7 i 9 ar y cyfnod hwn yn amcangyfrifon lefel uchel ac yn cynnwys lwfans ar gyfer tuedd optimistaeth. Byddai'r lefel hwn o fuddsoddiad yn y rhanbarth o £88m yn gweld cyfraniad posib gan Sir Ddinbych o £26.6m a fyddai'n gyfystyr i gost benthyca ddarbodus o £1.75m y flwyddyn.
- 6.3. Yn amlwg mae'r rhain yn gostau sylweddol mewn amgylchedd ariannol heriol i awdurdodau lleol. Bydd angen adolygiad cyson o ba mor fforddiadwy yw'r rhaglen a bydd y cyfle i ailgyflwyno'r rhaglen dreigl yn 2026/27 o bosib yn gweld newid yn yr awch am fuddsoddiad. Fodd bynnag, ar y cam hwn mae rhaglen realistig wedi cael ei ddatblygu i gael ei ystyried.
- 6.4. Byddai'r cynnydd gyda'r Rhaglen, a'i ddarpariaeth, yn cael effaith ar ystod o Wasanaethau'r Cyngor. Mae gwasanaethau fel Perfformiad, Digidol ac Asedau, Cyllid ac Archwilio, Pobl a Chynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad yn chwarae rolau allweddol mewn datblygu cynigion, caffael contractwyr, newid rheolaeth a darparu'r isadeiledd digidol sydd ei angen o fewn adeilad yr ysgol. Nod allweddol o'r rhaglen yw darparu adeiladau di-garbon net a bydd hyn yn chwarae'r rôl allweddol mewn cwrdd ag uchelgeisiau ehangach y Cyngor.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1. Dylai'r cynnydd gyda'r rhaglen fuddsoddi ar gyfer Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gael effaith bositif ar Sir Ddinbych (gweler Atodiad 3). Bydd y cyfnod adeiladu'n golygu y bydd mwy'n cael ei fuddsoddi mewn cwmnïau lleol a bod gwell cyfleoedd am waith. Gall dewis safle gael effaith negyddol ar wytnwch Sir Ddinbych ac felly bydd angen ystyried hyn yn ofalus. Dylai darparu adeiladau modern gael effaith gadarnhaol ar Sir Ddinbych iachach a mwy cyfartal, gan ddarparu cyfle am gymuned fwy cydlynol. Bydd yr effaith ar y Gymraeg yn cael ei phennu gan leoliad y buddsoddiad.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Mae'r prosiectau a restrwyd fel y rheiny wedi'u cario drosodd o Fand B eisoes wedi bod yn destun trafodaeth yn y cyfarfodydd Cabinet a Chraffu. Mae'r ymagwedd awgrymedig hon wedi cael ei hargymhell gan Dîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor i sicrhau fod y broses o ddarparu'r rhaglen yn parhau i fod yn gynaliadwy. Mae'r cynigion i ddod ar gyfer blynyddoedd y dyfodol o 2027 i 2033 yn destun trafodaethau llawn gyda Grwpiau Ardal yr Aelodau ac Ysgolion perthnasol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar brosiectau pellach i'w cadarnhau yn y rhaglen.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1. O ystyried y pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y tymor canolig mae'n briodol bod y canlyniadau refeniw o benderfyniadau cyfalaf yn cael eu hystyried fel y nodir a'u hargymhellir yn yr adroddiad hwn. Mae'n bwysig nodi fod yr argymhelliaid i ehangu hyd yr amser a gymerir i gwblhau prosiectau Band B gan ledaenu'r effaith o gostau benthyca dros gyfnod hirach o amser ar ein cyllideb refeniw. Nid yw hyn yn lleihau uchelgais neu ymrwymiad y cyngor i'r cymunedau hynny sy'n cael eu heffeithio. Y pryder yw os byddwn ni'n parhau i symud gyda'r holl brosiectau bydd rhaid i ni wneud toriadau pellach i gyllidebau gwasanaeth er mwyn i ni allu fforddio costau benthyca sydd wrth gwrs yn cynnwys cyllideb ysgol a ddirprwyir.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r Rhaglen Moderneiddio Addysg bresennol yn cynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer rheoli ac uwchgyfeirio risgiau ar lefel y Rhaglen a'r Prosiect. Pe bai'r rhaglen yn cael ei symud yn ei blaen, byddai'r gweithdrefnau hyn yn parhau. Y prif risg sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Amlinellol Strategol yw fforddiadwyedd ariannol. Ar y cam hwn bydd angen bod yn wyliadwrus ynghylch disgwyliadau ar gyfer y rhaglen wrth symud ymlaen.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Adran 14 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o ysgolion i ddarparu addysg gynradd ac uwchradd.

Appendix 1 Rolling Programme Projects

Projects should be identified in the nine-year capital programme with:

- Years 1, 2 and 3 projects expected to reach full business case within the 3 years.
- Years 4, 5 and 6 projects being developed and going through statutory consultation.
- Years 7, 8 and 9 being pipeline projects.

How many projects do you intend to deliver in each segment of your rolling programme?

Years 1-3	2
Years 4-6	3
Years 7-9	Tbc

What are they? (Please note that details of the projects should also be included in the Project Data Collection spreadsheet and attached). The projects should be ranked in both documents in order of priority.

Years 1-3

500 words maximum

The following project was part of Denbighshire's Band B proposals and is intended to be taken over into the rolling programme.

Ysgol Plas Brondyffryn, Denbigh – This project will deliver a new build 3-18 school for pupils with Autism. The school operates over three sites during school hours and the project will allow the school to be based on a single site. The project will allow demand for this provision to be met via the increase in capacity from the current 133 pupils to an overall capacity of 220. This will enable the recognised need for a larger school specialising in autism provision for pupils across the County and will have a positive impact on other schools where pupils currently supported in mainstream provision may be able to be admitted to Ysgol Plas Brondyfryn.

The need for this school has been supported by Cabinet, including the submission of a planning application for the preferred site and the proposals are advanced. The School Organisation proposals were determined in February 2023 and the Outline Business Case was approved by Welsh Government in 2022.

The project is currently at RIBA Stage 3 with the planning submission expected in early summer of 2024. The current programme would see construction taking place between Spring 2025 and Summer 2026. There are risks associated with the planning submission and failure to secure approval would see a need for a rethink of the proposals. This would delay the project with an alternative project coming forward in this first element of the rolling programme.

This is a new project for inclusion within the Programme

Ysgol y Castell, Rhuddlan – This project will allow a small extension to 4 classrooms and improvements to general areas of the school. The project will increase the capacity of the school in response to the recent completion of new housing in the village. The secured section 106 contribution is proposed to be used as match funding to enable this project to progress. The scheme has been developed to RIBA Stage 3 with planning permission obtained for the project in September 2023. The Outline Business Justification for the project will be submitted during 2024 with a view to construction commencing shortly afterwards.

Years 4-6
500 words maximum

The following projects were part of Denbighshire's Band B proposals and are intended to be taken over into the rolling programme.

Ysgol Pendref, Denbigh – This project will consolidate provision for the existing 3-11 primary school which is based on two adjoining sites. Both buildings are considered to be in grade C condition and have issues around accessibility and flexibility. The project is currently at RIBA Stage 1. The progression of the current project has involved lengthy discussions around site selection. The conclusion of this has seen a focus now on the existing school site with the options of remodelling and extensions or new build the focus of the current feasibility studies. The current programme would see construction taking place during 2027 to 2028.

Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant, Llangollen – This project will provide an upgrade to the existing accommodation for the two primary schools in Llangollen and to ensure future need can be met, particularly for Welsh medium education. Ysgol Gwernant was established as a Welsh medium school in the Ysgol Bryn

Collen site in 2005 and has grown in size. The present arrangements provide limited demarcation between the two schools and the restrictions in provision are impacting delivery in the schools. This project was considered as part of the Sustainable Schools Challenge in late 2022. A revised approach has now been adopted. The project is currently at RIBA Stage 1. Upon completion of this stage the project will be on hold pending design work being resumed in 2026. The current programme would see construction taking place between 2027 and 2029.

Denbigh High School, Denbigh – This project will see the refurbishment / remodelling of the 11-18 English medium secondary school in the town of Denbigh. The project is heavily linked to the Ysgol Plas Brondyffryn project as the secondary provision of Ysgol Plas Brondyffryn is delivered from the Denbigh High School and the proposed location of the new Ysgol Plas Brondyffryn is one of the High School playing fields. The proposal would see the High School utilising the accommodation vacated by Ysgol Plas Brondyffryn and the current accommodation being evaluated for areas which can be demolished, remodelled or rebuilt. The project is at the design brief stage pending the planning determination of the Ysgol Plas Brondyffryn project. The current programme would see construction taking place between 2027 and 2029.

Years 7-9

500 words maximum

Primary School Provision

The focus during 2026 – 2027 will be to identify areas for investment in the primary school estate between 2030 to 2033. At present demand for places sees 5 of Denbighshire's 45 primary schools having a deficit of spaces in excess of 10%. Particularly pressures exist in the North of the County and the focus will be on the areas around Rhyl, Bodelwyddan, St Asaph and Denbigh. This will be reviewed in greater detail to reflect where intervention may be needed via extension of provision. This will need to reflect expectations around reductions in pupil numbers over the next ten years which will create challenges for individual schools.

Secondary School Provision

The investment taken place as part of Band A together with the project to be delivered in Years 1 to 6 at Denbigh will have seen 50% of secondary schools benefiting from significant investment. The work between 2026-2027 in advance of the next SOP will be to identify specific investment in the remaining Secondary

Schools, namely Prestatyn High School, St Brigid's School, Ysgol Brynhyfryd and Ysgol Dinas Bran to enhance the poorest areas of accommodation in Denbighshire's secondary schools. This will allow detailed consideration of projects for potential delivery across years 2030 – 33.

Additional Support for Pupils

Over recent years it has become clear that further consideration is needed to support provision for pupils who need additional support beyond what can be provided in mainstream provision but whose needs may not be appropriate for our special schools. The work during 2024-2026 will be to identify the best approach to alternative provision with clearer recommendations emerging in the next SOP.

The pace of progress will be dependent on available resources and affordability.

Appendix 2 - Strategic Outline Programme

Tudalen 3

Phase	Project	Total Capital Costs Estimate	WG Capital Contribution	Other Sources	DCC Capital Contribution	DCC annual prudential borrowing cost	Period of annual borrowing cost
2024 - 2027	Ysgol Plas Brondyffryn	£30,751,452	£23,063,589		£7,687,863	£506,246	2027-52
	Ysgol y Castell *	£1,097,143	£713,143		£384,000		
	Total	£31,848,595	£23,776,732		£8,071,863	£506,246	
2027 - 2030	Ysgol Pendref	£11,744,051	£7,633,633		£4,110,418	£270,671	2030-55
	Ysgol Bryn Collen / Ysgol Gwernant	£6,528,686	£4,243,646		£2,285,040	£150,470	2030-55
	Denbigh High School	£17,632,511	£11,461,132		£6,171,379	£406,385	2030-55
	Total	£35,905,249	£23,338,412		£12,566,837	£827,526	
2030 - 2033	Primary School Investment	£30,904,789	£20,088,113		£10,816,676	£712,279	2033-58
	Secondary School Investment	£43,466,595	£29,924,190	£1,253,177	£12,289,228	£809,246	2033-58
	Alternative Support Provision	£14,000,000	£10,500,000		£3,500,000	£230,475	2033-58
	Total	£88,371,384	£60,512,303	£1,253,177	£26,605,904	£1,752,000	
	Overall Total	£156,125,227	£107,627,446	£1,253,177	£47,244,604	£3,085,772	

* DCC Contribution via Section 106 agreements

This page is intentionally left blank



Sustainable Communities for Learning - Rolling Programme: Well-being Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of the proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number: 268

Brief description: The proposals for Sustainable Communities for Learning which would be delivered in partnership with the Welsh Government

Date Completed: 01/09/2020 11:51:54 Version: 5

Completed by: James Curran

Responsible Service: Education and Children's Services

Localities affected by the proposal: Whole County,

Who will be affected by the proposal? The proposals will impact on the school communities of Denbighshire directly and indirectly through the investment applied will have an impact on the economic community of Denbighshire and beyond.

Was this impact assessment completed as a group? Yes

Summary and Conclusion

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

3 out of 4 stars

Actual score : 33 / 36.

Summary for each Sustainable Development principle

Long term

The Programme is looking at future investment and requires a long term approach to be considered. Future buildings will need to consider community use and achieve Net Carbon Zero.

Prevention

The proposals will impact on schools based in areas of socio economic disadvantage. The approach for greater community use and links could encourage additional community provision to develop in their communities.

Integration

The proposals will reflect areas of demographic change and likely changes around population, particularly arising from housing development from the Local Development Plan.

Collaboration

